# Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Personol - y prif wahaniaethau

## Lwfans Byw i'r Anabl

Mae Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn fudd-dal di-dreth ar gyfer pobl anabl sydd angen cymorth gyda chostau symudedd neu ofal. Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben ar gyfer pobl a aned ar ôl 8 Ebrill 1948 ac sy'n 16 oed neu'n hŷn. Erbyn hyn, gallwch ond gwneud cais newydd am Lwfans Byw i'r Anabl os ydych dan 16 oed.

## Taliad Annibyniaeth Personol

Cafodd Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ei gyflwyno ym mis Ebrill 2013. Mae'r Taliad Annibyniaeth Personol yn helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol a achosir gan salwch hirdymor neu anabledd.

### Yr hyn sydd ddim wedi newid?

Mae Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Personol:

- yn fudd-daliadau arian parod di-dreth nad yw'n gysylltiedig â phrawf modd
- yn fudd-daliadau y gallwch eu hawlio os ydych mewn neu allan o waith, yn gwneud gwaith gwirfoddol neu mewn addysg neu hyfforddiant
- yn gysylltiedig â chael budd-daliadau a chymorth eraill - fel Lwfans Gofalwr a'r cynllun Bathodyn Glas; a
- mae ganddynt reolau arbennig os oes gennych salwch terfynol.

### Beth sydd wedi newid?

- Mae'r Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer pobl 16 i 64 oed. Gallwch ond wneud cais newydd am Lwfans Byw i'r Anabl os ydych dan 16 oed.
- Nid yw'r Taliad Annibyniaeth Personol yn ymwneud â diagnosis eich anabledd neu gyflwr iechyd. Mae'r Taliad Annibyniaeth Personol yn seiliedig ar faint y mae eich cyflwr yn effeithio arnoch, nid ar y cyflwr sydd gennych.
- Os ydych yn gwneud cais am y Taliad Annibyniaeth Personol, bydd angen i chi gael eich asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Bydd hyn fel arfer yn digwydd wyneb yn wyneb.
- Asesir y Taliad Annibyniaeth Personol ar feini prawf gwahanol i'r Lwfans Byw i'r Anabl – mae ganddo system sy'n seiliedig ar sgôr sy'n ymwneud â'r cymorth rydych ei angen, gyda rhestr o weithgareddau bywyd bob dydd a symudedd.
- Mae'r Taliad Annibyniaeth Personol yn trin yr holl amodau yn gydradd ac yn ystyried namau meddyliol, deallusol, gwybyddol a synhwyrol.
- Mae gan yr elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl dair cyfradd tâl ac mae gan y gweithgaredd bywyd bob dydd y Taliad Annibyniaeth Personol ddau.
- Bydd y rhan fwyaf o ddyfarniadau'r Taliad Annibyniaeth Personol yn rhai tymor penodol gyda phwynt adolygu ynddo. Bydd y mecanwaith adolygu hynny yn berthnasol hyd yn oed os yw eich cyflwr yn barhaol, ond ni fydd yn berthnasol os oes gennych salwch terfynol.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogi eich annibyniaeth

## Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer plant

Lle y bydd plentyn o dan 16 oed ac yn cael Lwfans Byw i’r Anabl, cânt eu gwahodd i wneud cais am y Taliad Annibyniaeth Personol pan fyddant yn agosáu at 16 oed, neu newydd gyrraedd 16 oed. Nid oes angen cymryd unrhyw weithred nes derbynnir y gwahoddiad i wneud cais am y Taliad Annibyniaeth Personol.

## Mae Lwfans Byw i’r Anabl yn dod i ben ar gyfer pobl a aned ar ôl 8 Ebrill 1948 ac sy’n 16 oed neu’n hŷn

**Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os oes gennych ddyfarniad amhenodol neu hirdymor.**

Byddwch yn parhau i gael Lwfans Byw i’r Anabl hyd nes y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych pryd y daw i ben. Bydd y llythyr yn eich gwahodd i wneud cais am fudd-dal newydd o’r enw Taliad Annibyniaeth Personol ac yn dweud wrthych beth i’w wneud nesaf.

Unwaith y byddwch yn cael eich llythyr, bydd gennych 28 diwrnod i’r dyddiad ar y llythyr i benderfynu a ydych am wneud cais am y Taliad Annibyniaeth Personol.

Oherwydd ni fyddwch yn gallu dewis cadw Lwfans Byw i’r Anabl, mae’n werth cael gwybod am y Taliad Annibyniaeth Personol. Gall budd-daliadau eraill neu wasanaethau y gallwch chi neu’ch gofalwr ei gael, fel Symudedd neu Lwfans Gofalwr, hefyd ddod i ben neu newid.

Nid oes angen i chi gysylltu â ni nes i ni ysgrifennu atoch oni bai bod angen i chi ddweud wrthym am newid yn y ffordd y mae eich cyflwr neu anabledd yn effeithio arnoch.

Ni chewch eich effeithio gan y newid hwn a byddwch yn parhau i gael Lwfans Byw i’r Anabl os:

- cawsoch eich geni ar 8 Ebrill 1948 neu cyn hynny; neu
- rydych o dan 16 oed.

## Beth yw’r Taliad Annibyniaeth Personol?

Bwriad y Taliad Annibyniaeth Personol yw helpu gyda rhai o’r costau ychwanegol a achosir gan gyflyrau iechyd ac anableddau hirdymor. Mae’r Taliad Annibyniaeth Personol yn cynnwys 2 elfen (rhannau):

- bywyd bob dydd – am gymorth i gymryd rhan mewn bywyd bob dydd;
- symudedd – ar gyfer help gyda symud o gwmpas.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogi eich annibyniaeth

**I gael rhagor o wybodaeth am y Taliad Annibyniaeth Personol ewch i:**

**www.gov.uk/pip**